Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Egwyddorion Merthyr Tudful

## Cwrdd â Chyfrifoldebau Statudol yr Awdurdod Lleol Dan y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nodi pump egwyddor sy'n sail i'r system Angehnion Dysgu Ychwangol. Dyma nhw:

1. **Dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau** lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant/gofalwr y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth; a bod y plentyn, rhiant/gofalwr y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau o wneud penderfyniadau ac mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau ynghylch yr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol a materion cysylltiedig.

2. **Nodi, ymyrryd ac atal** yn gynnar pan fo anghenion yn cael eu nodi a sicrhau bod darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl a, lle bo'n bosibl, bod ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith i atal Angehnion Dysgu Ychwanegol rhag datblygu neu waethygu**.**

3. **Cydweithio ac integreiddio** lle mae gwasanaethau'n cydweithio i sicrhau bod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar a bod y cymorth cydgysylltiedig priodol yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau cadarnhaol.

4. **Addysg gynhwysol** lle cefnogir y mwyafrif o'r plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol i gyfranogi'n llawn mewn addysg brif ffrwd a bod dull lleoliad cyfan yn cael ei fabwysiadu i ddiwallu anghenion dysgwyr a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol**.**

5. **System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i roi Darpariaeth Addysg Ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifainc sydd angen cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chyfle i gynyddu Darpariaeth Addysg Ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg maes o law.

Amlinella'r ddogfen hon egwyddorion a disgwyliadau Merthyr Tudful parthed addysg i blant a phobl ifanc a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Datblygwyd y ddogfen mewn ymgynghoriad â phenaethiaid a'i bwriad yw sicrhau ein bod yn rhannu dealltwriaeth ynghylch sut fydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'i ddyletswyddau Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a gofynion y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae’r ddogfen Egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol hon yn rhannu’r un weledigaeth â strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau Merthyr Tudful:

**‘Llwyddiant i bob un plentyn’ Success for every child’**

‘Y cyfle i holl blant a phobl ifanc Merthyr Tudful fanteisio ar addysg o ansawdd uchel fel eu bod yn datblygu’n ddysgwyr galluog uchelgeisiol, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn ddinasyddion moesegol gwybodus ac yn unigolion iach, hyderus, sy’n barod i fyw bywydau dymunol a bodlon’.

**Egwyddorion Cynhwysiant a Chyfranogiad**

Dylai pob ysgol ddisgwyl, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a chadw at ei hegwyddor sylfaenol o addysg gynhwysol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ysgolion ym Merthyr Tudful yn gwneud popeth o fewn eu gallu er mwyn diwallu anghenion eu holl ddisgyblion.

Mae addysg gynhwysol yn ymwneud a thegwch i bob plentyn beth bynnag fo'u hoedran, rhyw, ethnigrwydd, cyrhaeddiad, anhawster dysgu, anabledd, iaith a chefndir. Mae'n sicrhau sylw arbennig i'r ddarpariaeth a wneir ar ei chyfer, a chyflawniad unigolion a grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn yr ysgol. Mewn ysgolion cwbl gynhwysol, mae pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu ac yn cyflawni drwy fod yn bresennol, cymryd rhan a gwneud cynnydd gyda'u dysgu. Felly, mae darpariaeth ac arferion cynhwysol yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch.

Yn ganolog i hyn mae cyfranogiad, gwrando ar blant, eu rhieni a phobl ifanc, a chymryd eu barn i ystyriaeth. Arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (ACU) yw un o brif egwyddorion y Cod ADY.

'*Nod yr egwyddorion sy'n sail i'r system ADY yw cefnogi creu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a manteisio ar addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa ar, a mwynhau dysgu'. (Cod ADY Ch3 (3.1) 2021)*

Yn ogystal â bod yn bwrpas moesol i ysgolion, cefnogir arferion cynhwysol yn benodol gan y gyfraith a dyletswyddau cyfatebol Deddf Cydraddoldeb Cymru (2010) a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru (ALNET yn Saesneg).

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn gorfodi ysgolion i wneud addasiadau rhesymol a chymryd camau cadarnhaol i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae'r Cod ADY yn egluro nad yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel o reidrwydd yn golygu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY ac na fyddai'n arwain yn awtomatig at benderfyniad bod gan y dysgwr ADY. Bydd gan rai dysgwyr bob amser lefelau cyrhaeddiad a gallu is a chanddynt y gallu i symud ymlaen ar gyfradd arafach ond cyson.

'*Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol yn aml fyddai addysgu wedi'i dargedu'n benodol at feysydd gwendid y disgyblion. Disgwylir i bob lleoliad addysg roi addysgu gwahaniaethol ar waith neu ymyriadau eraill wedi'u targedu a gynlluniwyd i sicrhau gwell cynnydd lle bo hynny'n briodol, ar gyfer pob disgybl. Mae hon yn elfen sylfaenol o addysgu o ansawdd uchel'. Cod ADY 2021 Ch 20.*

**Adnabod Cynnar – Blynyddoedd Cynnar**

Mae rhai lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar yn derbyn cymorth gwell i hwyluso strategaethau ymyrraeth gynnar, fel yr amlinellir yn yr Ymateb Graddedig Blynyddoedd Cynnar. Mae unrhyw gymorth gwell a ddarperir yn cael ei fonitro'n ofalus gan Banel Cymorth Gwell Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg, lle cynhelir trafodaethau amlasiantaethol ynghylch cynnydd plant.
Lle bo'n briodol, wrth adolygu'r cynnydd, gall y panel benderfynu, er gwaethaf yr ymyriadau arferol, ei bod yn ymddangos y gallai anawsterau plentyn fod yn ddigon arwyddocaol y dylid cychwyn y broses hysbysu ADY, yn dilyn trafodaethau sensitif â rhieni/gofalwyr.

Os bernir ei bod yn debygol y bydd neu efallai fod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, byddant yn cael sylw Panel ADY drwy Swyddog Arweiniol yr ADY Blynyddoedd Cynnar (EYALNLO), Panel Cymorth Gwell Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Plant, atgyfeiriad uniongyrchol gan weithiwr iechyd proffesiynol neu gan riant.

Bydd angen bod y broses o nodi a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth a gasglwyd dros amser.

Bydd Cynllun Datblygu Unigol Blynyddoedd Cynnar bob amser yn cael ei gynnal gan yr ALl

**Adnabod Cynnar – Ysgolion a lleoliadau**

Pan fo cynnydd yn llai na'r disgwyl, efallai na fydd darpariaeth gynhwysol, addysgu o ansawdd uchel, gan gynnwys gwahaniaethu, a safon, ymyriadau arferol neu addasiadau rhesymol yn ddigonol i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae'n ddigon posibl y bydd dysgwyr o'r fath yn cael eu nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a bydd angen i'r ysgol gymryd camau ychwanegol neu wahanol i sicrhau cynnydd.

Diffinnir ADY fel darpariaeth ddysgu sy'n '*ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn a wneir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran'. Cod ADY Ch2*

Ar gyfer unrhyw ddysgwr y nodir bod ganddo ADY, bydd angen i'r ysgol greu a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yno ddarpariaeth ddysgu ychwanegol angenrheidiol (DDY) i ddiwallu'r angen a aseswyd, yn cael ei sicrhau.

**Cynllun Datblygu Unigol (CDU)**

**Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr ysgol**
Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu Cynllun Datblygu Unigol wedi'i baratoi a'i gynnal gan eu hysgol brif ffrwd. Y gobaith yw y bydd angen llai yn raddol ar rai plant a phobl ifanc yn hytrach na mwy o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (ALP yn Saesneg) dros amser, ac y bydd anghenion y plentyn yn cael eu diwallu neu eu datrys yn llawn.

**Cynllun Datblygu Personol wedi ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol**
Mewn rhai achosion, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellir cyfeirio'r penderfyniad ynghylch a oes gan ddisgybl ADY ac ar gyfer paratoi a chynnal CDU, at Banel ADY yr ALl.

O dan y Cod ADY mae dau achos lle mae'n ofynnol i ysgol sy'n cael ei chynnal gyfeirio achos plentyn at yr ALl yn hytrach na phenderfynu drosti ei hun a oes gan y plentyn ADY:

1. Lle mae'r disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol (parag 12.37 Cod ADY);
2. Os yw'r plentyn yn derbyn gofal (Ch 14 Cod ADY)

Yn yr achosion hyn, bydd gan Awdurdod Lleol Merthyr Tudful ddyletswydd i benderfynu a datblygu'r CDU a bydd yn cynnal y Cynllun Datblygu Unigol drwy'r adnoddau â ddirprwyir i'r ysgol.

Mewn rhai amgylchiadau, gall ysgol sy'n cael ei chynnal gyfeirio achos plentyn at y Panel ADY ar sail benodol sy'n gysylltiedig â natur ADY ymddangosiadol y plentyn.

Mae'r Cod ADY (A12.39) yn nodi:
*Lle bod ysgol wedi penderfynu bod gan blentyn yn yr ysgol ADY, yn hytrach na pharatoi'r CDU, gall gyfeirio achos y plentyn at yr ALl cyfrifol. Ond* *<u>ni ddylai'r ysgol</u>* wneud hyn oni bai ei bod yn ystyried bod gan y plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol:

(a) *Sy'n galw am Adnoddau Dysgu Ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r ysgol eu darparu,*
(b) *Sydd ag ystod neu sydd â natur nad oes modd i'r ysgol benderfynu arynyt yn ddigonol, neu*
(c) *Na does modd i'r ysgol benderfnynnu ar Ddarpariaeth Addysg Ychwanegol digonnol ar gyfer y plentyn*

Mae A12.43 o'r Cod ADY yn nodi:
*Gallai amgylchiadau'r ysgol (h.y. ei lleoliad, maint, cyllideb, profiad ac ati) effeithio ar farn yr ysgol ynghylch a fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r Ddarpariaeth Addysg Ychwanegol. Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol effeithio ar y farn honno:*

(a) *mae gan y plentyn nifer isel o achosion neu gyflwr prin sy'n gofyn am arbenigedd na all yr ysgol ei ddarparu;*
(b) *Er mwyn diwallu anghenion y plentyn, mae angen cyngor a chymorth rheolaidd ar yr ysgol gan asiantaethau allanol sy'n ychwanegol at yr hyn y gall yr ysgol ei drefnu a'i gyrchu'n rhesymol;*
(c) *Mae angen ar y plentyn am offer y gellir ei ddefnyddio gan un disgybl yn unig neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol.*

(d) *Mae'rangen cymorth dwys iawn ar y plentyn bob dydd, cymorth na ellir ei ariannu na'i sicrhau'n rhesymol gan gyllideb yr ysgol.*

Bydd gan y Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol gyfrifoldeb i benderfynu beth sy'n rhesymol wrth sicrhau Darpariaeth Addysg Ychwanegol.
O dan Adran 12.44 y Cod ADY, bydd yr egwyddorion ar gyfer penderfynu a ddylai ysgol neu ALl sicrhau ADY yn ymwneud â:

*(a) Maint a hyd y cyngor gan arbenigwyr allanol sy'n annhebygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;*
*(b) yr offer sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu;*
*(c) Dwyster a hyd y gefnogaeth a graddfa'r ymgysylltiad mewnol rhwng staff (gan gynnwys y CADY) yn yr ysgol sy'n debygol o fod yn afresymol i'r ysgol ei darparu.*

Bydd y Panel ADY yn cymhwyso prawf ynghylch yr hyn sy'n 'rhesymol' wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth gredadwy a gyflwynir gan yr ysgol, wedi'i harwain gan synnwyr cyffredin, arbenigedd proffesiynol a thrwy ddyfarniad cyfunol y Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol a gynrychiolir yn llawn. Bydd llais y disgybl a barn rhieni hefyd yn cael eu hystyried. Bydd pob cyfarfod Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gofyn am gynrychiolaeth o leiaf un Pennaeth, Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo yn Saesneg) o ysgolion yr Awdurdod Lleol (ar amserlen dreigl) a chydweithwyr o'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA), Tîm Lles Ysgolion (TLlY) a Gwasanaethau Plant.

Bydd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful yn cynnal Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y disgyblion hynny y mae eu difrifoldeb mewn angen yn bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod fel y penderfynir gan benderfyniad cyfunol Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Awdurdod Lleol.
Cytunir y byddai difrifoldeb anghenion dysgu ychwanegol y disgybl unigol yn gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a fyddai ond yn gallu cael cymorth dwys gan oedolyn bob dydd am gyfnod hir o amser.

Bydd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful hefyd yn cynnal Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n defnyddio lleoliad ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau dysgu (CAD), ar gyfer disgyblion a addysgir heblaw yn yr ysgol (AHYYY) ac ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir.

Bydd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful yn cymhwyso'r gofynion a amlinellir yn Ch 26 o'r Cod ADY wrth gymryd y cyfrifoldeb am Gynlluniau Datblygu Unigol.

Bydd gan Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol (CADY) ynghyd â'r uwch dîm reoli rôl hanfodol i'w chwarae wrth benderfynu a yw technegau a strategaethau a gyflogir fel arfer wedi cael eu defnyddio'n gyson dros amser heb eithriad.
Bydd penderfynu a oes gan blentyn ADY yn cael ei wneud drwy gasglu tystiolaeth dros amser o ystod o ffynonellau'n ymwneud â chynnydd mewn dysgu a bydd yn seiliedig ar wybodaeth ansoddol a meintiol.
Mae'n ddisgwyliad cytunedig y bydd pob Cydlynydd Anghenion Dysgu Yhwanegol yn cael amser rheoli priodol i ymgymryd â'u rôl.

**Dyletswydd yr Awdurdod Lleol i adolygu**

Mae'r Cod Angehnion Dysgu Ychanegol yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Lleol Merthyr Tudful i adolygu ei drefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a chanddynt ADY, yn ogystal â rhai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir. Mae hyn yn cynnwys ystyried lefel y Anghenio Dysgu Ychwanegol sydd ar waith.
Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Ch7 para 7.10) yn ei wneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gasglu tystiolaeth ar y graddau y mae'r canlynol ar gael mewn ysgolion a gynhelir:

(a) Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc unigol.
(b) Ymyrraeth a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr ag Anghennion Dysgu Ychwanegol.
(c) Systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u cynnwys ym mywyd beunyddiol yr ysgol.
(d) Trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr mewn achosion lle mae'n briodol gwneud hynny.
(e) Trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddir i gefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a sgiliau ac arbenigedd staff.
(f) Trefniadau ar gyfer cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni ar bob cam o'r broses.

Bydd Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Merthyr Tudful mewn cydweithrediad â Swyddogion Gwella Ysgolion yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r disgwyliadau uchod.

**Offer Arbenigol**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol i ddysgwyr ag anableddau. Bydd y rhan fwyaf o offer arbenigol yn cael ei ddarparu i ddysgwyr o adnoddau'r ysgol.
Gall darnau eraill o offer fod yn fwy arbenigol ac o gost sylweddol. Bydd y darnau hyn o offer wedi'u teilwra i anghenion y dysgwr unigol a byddant wedi'u nodi drwy asesiad arbenigol gan weithiwr proffesiynol fel Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd neu Athro/Athro Arbenigol y Nam ar eu Golwg neu eu Clyw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol fydd offer arbenigol o'r fath i archebu ac ariannu a chaiff ei gofnodi fel rhan o Anghenion Dysgu Ychwanegol y dysgwr ar eu Cynllun Datblgyu Unigol.

**Anghytuno ac Apeliadau**

Mae'n debygol y bydd anghytuno a gwahaniaethau barn o bryd i'w gilydd ynghylch y gofyn am Gynllun Datblygu Unigol neu lefel y cymorth a'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwr.

Dylai pob lleoliad addysgol ganolbwyntio ar roi cyfle i blant, pobl ifanc a'u rhieni godi pryderon neu gwestiynau ar bob cam o'r broses. Yn y mwyafrif o achosion, bydd ymyrraeth gynnar a chymryd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn osgoi anghydfod a'r posibilrwydd o waethygu i fforwm datrys anghydfod mwy ffurfiol.

Mae gan Awdurdod Lleol Merthyr Tudful ddau Weithiwr Achos Cymhleth sy'n cydweithio â dysgwyr, ysgolion, rhieni ac asiantaethau allanol, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i geisio sicrhau'r canlyniad gorau i ddysgwyr. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn darparu hyfforddiant ar ddatrys anghydfod a hyfforddiant cyfryngu i Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phenaethiaid.

Mae gwasanaeth datrys anghydfod ffurfiol ar gael drwy SNAP Cymru.